# Y Bwrdd Rheoli

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:**Conference Room 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad:**Dydd Iau, 6 Tachwedd 2014**

Amser: **09.15 - 10.45**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:
**Liz Jardine**
Ysgrifennydd
0300 200 6565
liz.jardine@cynulliad.cymru

## Agenda MB (16-14)

### Dechrau'r cyfarfod

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

### 2 Nodyn cyfathrebu i'r staff - Sian Wilkins

### 3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol (20 Hydref 2014) (Tudalennau 1 - 5)

*MB (16-14) Papur 1 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2014*

### Y prif eitemau

### Paratoi ar gyfer cyfarfod y Comisiwn ar 17 Tachwedd

### 4 Newid cyfansoddiadol - Papur 2, atodiadau A i C ac atodiad

(Tudalennau 6 - 40)

*MB (16-14) Papur 2 - Newid cyfansoddiadol*

*MB (16-14) Papur 2 Atodiadau - Newid cyfansoddiadol - goblygiadau ar gyfer y Comisiwn*

### 5 Adolygiad o'r cymorth a roddir i bwyllgorau - Papur 3 (Tudalennau 41 -

57)
*MB (16-14) Papur 3 - Adolygiad y Comisiwn o'r cymorth a roddir i Bwyllgorau*

## Eitemau byr

## 6 Y wybodaeth ddiweddaraf am risgiau corfforaethol - Papur 4 ac atodiadau A i D (Tudalennau 58 - 75)

*MB (16-14) Papur 4 - Risgiau corfforaethol*
*MB (16-14) Papur 4 Atodiad A*
*MB (16-14) Papur 4 Atodiad B*
*MB (16-14) Papur 4 Atodiad C*
*MB (16-14) Papur 4 Atodiad D*

## 7 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau

## Cloi'r cyfarfod

## Diwedd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2014
## 13:30 – 15:00, Ystafell Gynadledda 4B

**Yn bresennol:**
Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)
Anna Daniel (Pennaeth Trawsnewid Strategol)
Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)
Virginia Hawkins (Pennaeth Llywodraethu)
Bedwyr Jones (Pennaeth TGCh Dros Dro)
Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)
Kathryn Potter (Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil)
Mike Snook (Pennaeth Pobl a Lleoedd)
Craig Stephenson (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn)
Dave Tosh, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad dros dro a Chyfarwyddwr TGCh
Chris Warner (Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth)
Sian Wilkins (Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau)

**Hefyd yn bresennol:**
Liz Jardine (Ysgrifenyddiaeth)
Gareth Watts, Pennaeth Archwilio Mewnol – *Eitem 1*
Sulafa Thomas (Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn / Pontio i'r Pumed Cynulliad) – *Eitemau 3 a 4*

### 1.0 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

**1.1** Cafwyd ymddiheuriadau gan Nicola Callow (y Pennaeth Cyllid) ac Elisabeth Jones (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)

**1.2** Nid oedd buddiannau i'w datgan.

**2.0 Cyfathrebu â staff**

**2.1** Cytunodd Anna Daniel i ddrafftio nodyn am drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.

**3.0 Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**3.1** Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref yn gofnod cywir.

**4.0 Yr Adolygiad Adnoddau Dynol / y Gyflogres**

**4.1** Croesawyd Gareth Watts (y Pennaeth Archwilio Mewnol) i'r cyfarfod i gyflwyno canfyddiadau'r adroddiad archwilio mewnol ar y prosiect Adnoddau Dynol / y Gyflogres. Roedd yr adolygiad yn edrych yn fanwl ar agweddau allweddol ar lywodraethu a rheoli cam 1 y prosiect, a nodwyd meysydd y dylid rhoi sylw iddynt cyn symud ymlaen i gam 2. Roedd y prosiect wedi cyflawni hunanwasanaeth ymarferol ar gyfer y gyflogres ac AD yn rhannol, er gwaethaf anawsterau, fel llithriant o ran amserlenni cyflawni. Roedd yr adroddiad yn nodi rhai ffactorau a oedd wedi cyfrannu at yr anawsterau, a gwahoddodd Gareth sylwadau gan y Bwrdd o ran argymhellion yr adroddiad.

**4.2** Cytunodd y Bwrdd fod angen deall pam y cafwyd y problemau, a chafwyd sgwrs am y gwersi a ddysgwyd, a sut y gellid eu cymhwyso i brosiectau yn y dyfodol. Gwnaed yr argymhellion a ganlyn:

- Y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau i gadarnhau'r adnoddau sy'n ofynnol, y buddsoddiad, yr arbenigedd o ran staff, a chwmpas pob prosiect mawr newydd;
- mabwysiadu'r cwestiynau herio a chraffu allweddol, a luniwyd gan Gareth Watts, fel dull o asesu prosiectau yn y dyfodol, gan gynnwys cam 2 y prosiect Adnoddau Dynol / y Gyflogres;
- gweithredu system mentor ar gyfer rheolwyr prosiect newydd a datblygu proses o ddethol a hyfforddiant ar gyfer staff, gan gynnwys Uwch Swyddogion Cyfrifol;

- sicrhau bod negeseuon allweddol i staff yn glir, gan nodi disgwyliadau rhesymol; cael adborth drwy brofion gyda defnyddwyr; a
- sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud ag ymdrin â chontractwyr yn brofiadol, ac wedi'u paratoi i herio'n briodol yn ôl yr angen.

**4.3** Byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn edrych ar yr adroddiad yn eu cyfarfod nesaf ar 10 Tachwedd.

**4.4** **Camau i'w cymryd**:

- Gareth Watts a Virginia Hawkins i ystyried sut i gyfleu'r neges ynghylch y gwersi a ddysgwyd i staff, gan gynnwys cyfrannu at arferion gwaith ar gyfer rheolwyr y prosiect, a pharatoi neges ar gyfer staff; ac
- Adolygu'r canllawiau a'u mabwysiadu'n ffurfiol; dylid cynnwys disgrifiad swydd a llythyr dirprwyo gan y Prif Weithredwr at bob Uwch Swyddog Cyfrifol newydd, yn amlinellu'r cyfrifoldebau a'r disgwyliadau.

**5.0 Y Strategaeth TGCh**

**5.1** Cyflwynodd Dave Tosh a Bedwyr Jones y Strategaeth TGCh i'r Bwrdd, i amlinellu'r hyn a gyflawnwyd drwy droi at ddarpariaeth fewnol, y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol a'r amserlenni a ragwelir ar gyfer eu rhoi ar waith. Bu'r pontio yn rhaglen newid busnes o bwys. Byddai'r datblygiadau arloesol a'r gwelliannau yn newid y ffordd y mae staff ac Aelodau yn gweithio, gan ddarparu gwasanaeth a fyddai'n cefnogi swyddfa symudol yn llawn, yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd ac yn sicrhau bod data yn haws i ddod o hyd a'i ddefnyddio.

**5.2** Nododd Dave Tosh yn arbennig fod yr ymddiriedaeth a'r ddealltwriaeth rhwng y gwasanaeth TGCh a gweddill y sefydliad wedi cynyddu yn ystod y cyfnod pontio. Penodwyd Rheolwr TG newydd i gynorthwyo staff a'r Aelodau i ddefnyddio'r caledwedd newydd, ac i ddarparu hyfforddiant pwrpasol. Byddai'r holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ddwyieithog a byddai'n cynnwys ymweliadau â swyddfeydd etholaethol.

**5.3** Cafodd aelodau'r Bwrdd sicrwydd am ddiogelwch y Cwmwl, y mae'r Cynulliad wedi dechrau ei fabwysiadu, gan ddechrau gyda symud y wefan i Sharepoint.

**5.4** Mynegodd aelodau'r Bwrdd eu diolch i Dave Tosh a'r tîm TGCh.

**6.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad o'r Cofnod; a chasgliadau'r prosiect Cyfieithu Peirianyddol.**

**6.1** Cyflwynodd Anna Daniel y wybodaeth ddrafft ddiweddaraf am yr adolygiad o'r Cofnod. Roedd dull cyfannol ar waith o ran cofnod y trafodion, a oedd yn cymryd i ystyriaeth y strategaeth gyfathrebu gyffredinol, sut mae pobl yn defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd a'r Cofnod yn y dyfodol. Byddai angen i unrhyw ddull neu gynnyrch a fabwysiadwyd fod yn gost effeithiol a pharhau i fodloni disgwyliadau defnyddwyr o ran ei ansawdd.

**6.2** Gofynnodd y Bwrdd am gynnwys rhagor o dystiolaeth i ategu'r honiadau o ran capasiti, h.y. y byddai newidiadau yn rhyddhau adnoddau, a hefyd y dylid darparu rhagor o ddarluniau i ddangos y pethau newydd y gellid eu cyflawni o ganlyniad i'r dull newydd. Dylid rhoi rhagor o bwyslais ar y cynnydd o ran cyflymder y cyfieithu, a darparu data cliriach, er enghraifft, ar yr amser a dreulir yn prawfddarllen.

**6.3** O ran y casgliadau ar y prosiect Cyfieithu Peirianyddol, nododd Anna fod canlyniadau'r profion yn dangos bod gwelliant parhaus yn ansawdd y cyfieithiadau drwy Microsoft. Byddai cael cytundeb y Comisiynwyr i hybu'r berthynas â Microsoft ymhellach, ac archwilio ffyrdd eraill o weithio gyda hwy, yn fuddiol.

**6.4** Mae llai o staff yn gweithio yn y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi o ganlyniad i secondiadau ac, er bod y cynhyrchiant unigol wedi cynyddu, roedd hyn mewn sefyllfa ble'r oedd cynnydd yn y galw am gyfieithiadau. Roedd, felly, yn angenrheidiol cyfrifo'r galw disgwyliedig, a phenderfynu a ellid ateb y galw yn fewnol.

**6.5** Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno i'r Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 17 Tachwedd.

**6.6 Camau i'w cymryd**:

- Anna Daniel i grynhoi'r negeseuon allweddol, er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf a'r casgliadau mewn fformat byrrach i'r Comisiynwyr ac i ddarparu cyfeiriad clir, gan dynnu sylw at y wybodaeth a'r data sy'n gysylltiedig ag arbed costau.

**7.0 Yr adroddiad Rheolaeth Ariannol ar gyfer mis Medi 2014 a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau**

**7.1** Rhoddodd Claire Clancy y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau ar 20 Hydref, ac amlinellodd y sefyllfa ariannol bresennol a'r rhagamcan o'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer buddsoddi, sef oddeutu £8-900,000. Gofynnwyd i Dave Tosh a Mike Snook adolygu eu blaenraglenni gwaith o ran TGCh ac Ystadau, i archwilio'r hyn y gellid ei ddwyn i'r flwyddyn ariannol gyfredol, er mwyn lleihau'r pwysau ar gyllidebau yn y dyfodol. Byddai'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn adolygu'r sefyllfa ariannol unwaith eto ym mis Tachwedd, ac yn canfod pa brosiectau neu eitemau buddsoddi a ellid, yn wir, eu dwyn ymlaen.

**Cloi'r cyfarfod**

**8.0 Unrhyw fater arall**

**8.1** Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Rheoli ar 6 Tachwedd.

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon